



### **Pwyllgor Cynllunio a Datblygu CYNGOR RHONDDA CYNON TAF**

Cofnodion o gyfarfod o'r Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gafodd ei gynnal ddydd Iau, 19 Ebrill 2018 am 5pm yn Siambr y Cyngor, Y Pafiliynau, Parc Hen Lofa'r Cambrian. Cwm Clydach, Tonypany CF40 2XX.

#### **Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol – Aelodau o'r Pwyllgor Datblygu a Chynllunio oedd yn bresennol:-**

Y Cynghorydd S Rees (Cadeirydd)

Y Cynghorydd G Caple  
Y Cynghorydd D Grehan  
Y Cynghorydd D Williams

Y Cynghorydd J Bonetto  
Y Cynghorydd G Hughes  
Y Cynghorydd S Powell

Y Cynghorydd P Jarman  
Y Cynghorydd A Davies-Jones  
Y Cynghorydd W Owen

#### **Swyddogion oedd yn bresennol:-**

Mr S. Gale, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Materion Cynllunio  
Mr C Jones, Rheolwr Materion Rheoli Datblygu  
Mr J Bailey, Rheolwr Materion Rheoli Datblygu  
Mr S Zeinali, Rheolwr Rheoli Datblygiad y Priffyrdd  
Mr S. Humphreys, Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol – Cynllunio a'r Amgylchedd

#### **Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol oedd yn bresennol:-**

Y Cynghorydd G Holmes      Y Cynghorydd R Bevan

#### **174      YMDDIHEURIADAU DROS ABSENOLDEB**

Derbyniwyd ymddiheuriad dros absenoldeb gan y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol J. Williams.

#### **175      DATGAN BUDDIANT**

Cafodd y datganiadau o fuddiannau ynglŷn â materion ar yr agenda gan yr unigolion canlynol:-

(1) Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, datganodd y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol G. Hughes fuddiant personol a rhagfarnus yn Eitem 8, Cais Rhif 18/0117 – Estyniad arfaethedig i'r gegin gefn, 19 Charles Street, Trealaw, Tonypany. "Mae'r cais am estyniad ar fy nghartref a byddaf felly yn gadael y cyfarfod tra bydd yn cael ei ystyried".

(2) Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, datganodd y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol P. Jarman fuddiant personol a rhagfarnus yn Eitem 13, Cais Rhif 17/0922 – Datblygiad arfaethedig ar gyfer annedd amaethyddol dros dro ar y tir y mae'r ymgeisydd yn berchen arno, Top Yard, Tir y Gelli Farm, Gelli-Wrgan Road, Aberpennar, Pontypridd. "Mae fy merch-yng-nghyfraith yn gofalu am y ceffylau yn y stablau ar y safle cyfagos ac felly, bydda i'n gadael y cyfarfod tra bydd y cais yn cael ei ystyried".

(3) Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, datganodd y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol W. Owen fudd personol a rhagfarnus yn yr eitemau canlynol:-  
Item 6, Application No. 16/1028 – Troi ysgubor storio gyfagos yn llety byw a mynedfa newydd gysylltiedig

- Gosod ffenestr newydd yn y fynedfa bresennol
- Gosod drws allanol newydd yn y fynedfa bresennol
- Ffenestri newydd
- Mynedfa fewnol newydd sy'n cysylltu'r ystafell fyw a'r gegin
- Ailosod to'r cyntedd
- Gwaith cynnal a chadw cyffredinol

Fferm Pantyddrainan, Ffordd Llantrisant, Castellau, Y Beddau, Pont-y-clun ac;

Eitem 7, Rhif y Cais: 16/1040 – Caniatâd Adeilad Rhestredig ar gyfer y canlynol:-

- Troi ysgubor storio gyfagos yn llety byw a mynedfa newydd gysylltiedig
- Gosod ffenestr newydd yn y fynedfa bresennol
- Gosod drws allanol newydd yn y fynedfa bresennol
- Ffenestri newydd
- Mynedfa fewnol newydd sy'n cysylltu'r ystafell fyw a'r gegin
- Ailosod to'r cyntedd
- Gwaith cynnal a chadw cyffredinol

Fferm Pantyddrainan, Ffordd Llantrisant, Castellau, Y Beddau, Pont-y-clun.

"Rydw i'n berchen ar yr eiddo dan sylw yn y ddau gais ac felly, byddaf yn gadael y cyfarfod tra bydd y ceisiadau'n cael eu hystyried."

## **176 DEDDF HAWLIAU DYNOL 1998 A PHENDERFYNIADAU RHEOLI DATBLYGU**

**PENDERFYNWYD** nodi y dylai Aelodau o'r Pwyllgor, wrth benderfynu materion rheoli datblygu ger eu bron, roi sylw i'r Cynllun Datblygu ac, i'r graddau y bo hynny yn berthnasol, i unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill. Rhaid i Aelodau, wrth ddod i benderfyniadau, sicrhau nad ydyn nhw'n gweithredu mewn modd sy'n anghyson â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol fel y'i hymgorfforwyd mewn deddfwriaeth gan Ddeddf Hawliau Dynol 1998.

## **177 DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015**

**PENDERFYNWYD** nodi bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i gynnal datblygiadau cynaliadwy yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, ac i weithredu mewn modd sy'n anelu at sicrhau y caiff anghenion y presennol eu diwallu heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau.

## **178 COFNODION**

**PENDERFYNWYD** cadarnhau'r cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gynhaliwyd ar 15 Mawrth, 2018 yn rhai cywir.

## **179 NEWID I DREFN YR AGENDA**

**PENDERFYNODD** y Pwyllgor y byddai'r agenda yn cael ei ystyried mewn trefn wahanol yn unol â'r manylion yn y cofnodion isod.

**180 CAIS: 18/0175**

**Newid y defnydd i gynnwys Caffi A3, yn ogystal â'r defnydd presennol, ac adnewyddu ac ail-ddylunio blaen y siop, 325-326 Cardiff Road, Aberaman, Aberdâr.**

Yn unol â'r gweithdrefnau a gafodd eu mabwysiadu, derbyniodd y Pwyllgor Mr Martin Thomas (Ymgeisydd). Cafodd e bum munud i gyflwyno'r cais uchod i'r Aelodau.

Cyflwynodd y Rheolwr Materion Rheoli Datblygu y cais i'r Pwyllgor. Ar ôl trafod y cynnig, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Materion Cynllunio.

**181 CAIS: 17/1334**

**Newid defnydd y tir ar gyfer cadw ceffylau a gwaith arfaethedig i adeiladu stablau (Disgrifiad Diwygiedig 18/01/18) (Y Cynllun Diwygiedig a Dderbyniwyd 12/02/18), tir ger Byngalo Pen-y-Bryn, Penrhiwfer Road, Penrhiw-fer, Tonypany.**

Yn unol â'r gweithdrefnau a gafodd eu mabwysiadu, derbyniodd y Pwyllgor Mr Mark Merriot (Asiant). Cafodd e bum munud i gyflwyno'r cais uchod i'r Aelodau.

Siaradodd yr Aelod Pwyllgor/Aelod Lleol, y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol A Davies-Jones, am y cais gan fynegi ei chefnogaeth ynglŷn â'r datblygiad arfaethedig.

Cyflwynodd y Rheolwr Materion Rheoli Datblygu'r cais ac yn dilyn trafodaethau, **PENDERFYNODD** y Pwyllgor gymeradwyo'r cais cynllunio'n groes i argymhellion y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Materion Cynllunio. Roedd Aelodau o'r farn na fyddai'r datblygiad arfaethedig yn cael effaith andwyol ar amwynder preswylwyr eiddo preswyl cyfagos sy'n deillio o sŵn, arogleuon ac aflonyddu cyffredinol. O ganlyniad i hynny, caiff y mater ei ohirio tan y cyfarfod priodol nesaf o'r Pwyllgor Cynllunio a Datblygu fel bod modd derbyn adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Materion Cynllunio, a gaiff ei lunio drwy ymgynghori â'r Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol yn ôl yr angen. Bydd yr adroddiad yn trafod cryfderau a gwendidau unrhyw reswm arfaethedig neu reswm cynllunio dros wneud penderfyniad o'r fath. Caiff yr adroddiad yma ei ystyried cyn dod i benderfyniad ar y mater.

**182 CAIS: 18/0097**

**Newid arfaethedig i ddefnydd garej domestig i fusnes manwerthu bach, 2 Ruperra Street, Llantrisant, Pont-y-clun.**

Yn unol â'r gweithdrefnau a gafodd eu mabwysiadu, derbyniodd y Pwyllgor Mrs Davina Williams (Ymgeisydd). Cafodd hi bum munud i gyflwyno'r cais uchod i'r Aelodau.

Siaradodd yr Aelod Lleol, y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol G Holmes, nad yw'n aelod o'r Pwyllgor, am y cais gan fynegi ei gefnogaeth ynglŷn â'r datblygiad arfaethedig.

Cyflwynodd Rheolwr Materion Rheoli Datblygu y cais i'r Pwyllgor. Yn dilyn ystyriaeth, **PENDERFYNODD** Aelodau gymeradwyo'r cais yn groes i argymhellion y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Materion Cynllunio. Roedden nhw o'r farn gan fod y datblygiad yn cynnwys parcio oddi ar y stryd, ac oherwydd bod y siop yn fach, ni fyddai'r datblygiad arfaethedig yn cael unrhyw effaith andwyol ar ddiogelwch y ffordd. O ganlyniad i hynny, caiff y mater ei ohirio tan y cyfarfod priodol nesaf o'r Pwyllgor Cynllunio a Datblygu fel bod modd derbyn adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Materion Cynllunio, a gaiff ei lunio drwy ymgynghori â'r Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol yn ôl yr angen. Bydd yr adroddiad yn trafod cryfderau a gwendidau unrhyw reswm arfaethedig neu reswm cynllunio dros wneud penderfyniad o'r fath. Caiff yr adroddiad yma ei ystyried cyn dod i benderfyniad ar y mater.

**183 CAIS: 17/0922**

**Mae'r datblygiad arfaethedig ar gyfer annedd amaethyddol dros dro ar dir yr ymgeisydd, Top Yard, Tir y Gelli Farm, Gelli-Wrgan Road, Aberpennar, Pontypridd.**

(**Noder:** Wedi datgan buddiant yn y cais uchod (Cofnod Rhif 175), gadawodd y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol P. Jarman y cyfarfod ar gyfer yr eitem yma).

Yn unol â'r gweithdrefnau a gafodd eu mabwysiadu, derbyniodd y Pwyllgor Mr Graham Leaver (Asiant). Cafodd e bum munud i gyflwyno'r cais i'r Aelodau ar y cynnig uchod.

Amlinellodd y Rheolwr Materion Rheoli Datblygu gynnwys llythyr 'hwyr' a ddaeth i law gan Mrs L Gore a oedd yn gwrthwynebu'r cais. Ar ôl ystyried y cais, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhellion y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Materion Cynllunio.

**184 CAIS: 14/1128**

**Amrywio Amod 2 a dileu Amodau 47, 48 a 49 o ganiatâd cynllunio 12/1102/10 i ganiatáu mân newidiadau i'r cynlluniau cymeradwy sy'n cynnwys lleihau'r ardal gwerthu net, newidiadau mewnol ac allanol i'r siop a gymeradwywyd ac addasiadau i osodiad y peiriannau sydd yn iard gwasanaeth Sainsburys Supermarkets Ltd, sef y tir sydd i'r de o'r A473, Tonysguboriau.**

Adroddodd y Rheolwr Rheoli Datblygiad ar y cais uchod lle roedd yn cael ei ystyried bod newidiadau sylweddol wedi digwydd ers i'r cais gael ei adrodd yn wreiddiol i'r Pwyllgor ar 18 Rhagfyr, 2014.

**PENDERFYNODD** y Pwyllgor gymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Materion Cynllunio yn ddarostyngedig i Gytundeb Adran 106 i sicrhau bod y Cyfraniad Rheoli Cynefin o £50 mil yn cael ei dalu ar ôl i waith ddechrau ar adeiladu'r archfarchnad neu erbyn 1 Chwefror 2019, pa un bynnag sydd gynharaf, er mwyn galluogi'r Cyngor i ddechrau ar waith cynnal a chadw cors y Pant am 25 blynedd (fel y'i cytunwyd) a chadw effeithiau'r gwaith adeiladu i'r lleiaf posibl. Yn ogystal â hyn, bydd gan y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Materion Cynllunio yr awdurdod i wrthod y cais os na fydd y Cytundeb Adran 106 yn cael ei gwblhau o fewn tri mis o ddyddiad y penderfyniad yma, gan na

fyddai'r cynnig yn gwneud darpariaeth ddigonol ar gyfer lliniaru effeithiau'r datblygiad ar Gors y Pant SINC, yn groes i bolisiau AW8 a SSA 8 y Cynllun Datblygu Lleol.

**185 CAIS: 16/1028**

**Troi ysgubor storio gyfagos yn llety byw a mynedfa newydd gysylltiedig.**  
- Gosod ffenestr newydd yn y fynedfa bresennol  
- Gosod drws allanol newydd yn y fynedfa bresennol  
- Ffenestri newydd  
- Mynedfa fewnol newydd sy'n cysylltu'r ystafell fyw a'r gegin  
- Ailosod to'r cyntedd  
- Gwaith cynnal a chadw cyffredinol  
**Fferm Pantyddrainan, Ffordd Llantrisant, Castellau, Y Beddau, Pont-y-clun.**

(**Noder:** Wedi datgan buddiant yn y cais uchod (Cofnod Rhif 175), gadawodd y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol W. Owen y cyfarfod ar gyfer yr eitem yma).

Ar ôl ystyried y cais, **PENDERFYNODD** y Pwyllgor gymeradwyo'r cais yn unol ag argymhellion y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Materion Cynllunio.

**186 CAIS: 16/1040**

**Caniatâd Adeilad Rhestredig ar gyfer y canlynol:-**  
- Troi ysgubor storio gyfagos yn llety byw a mynedfa newydd gysylltiedig  
- Gosod ffenestr newydd yn y fynedfa bresennol  
- Gosod drws allanol newydd yn y fynedfa bresennol  
- Ffenestri newydd  
- Mynedfa fewnol newydd sy'n cysylltu'r ystafell fyw a'r gegin  
- Ailosod to'r cyntedd  
- Gwaith cynnal a chadw cyffredinol  
**Fferm Pantyddrainan, Ffordd Llantrisant, Castellau, Y Beddau, Pont-y-clun.**

(**Noder:** Wedi datgan buddiant yn y cais uchod (Cofnod Rhif 175), gadawodd y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol W. Owen y cyfarfod ar gyfer yr eitem yma).

Ar ôl trafodaeth hir, **PENDERFYNODD** y Pwyllgor gymeradwyo'r cais yn unol ag argymhellion y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Materion Cynllunio.

**187 CAIS: 18/0117**

**Estyniad cegin arfaethedig i gefn 19 Charles Street, Trealaw, Tonypandy.**

(**Noder:** Wedi datgan buddiant yn y cais uchod (Cofnod Rhif 174), gadawodd y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol G. Hughes y cyfarfod ar gyfer yr eitem yma).

Cyflwynodd y Rheolwr Materion Rheoli Datblygu y cais i'r Pwyllgor a **PHENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Materion Cynllunio.

188 CAIS: 18/0294

Cais Adran 73 i addasu Amod 2 o ganiatâd cynllunio 17/0131/08 i gynnwys y canlynol: newid aliniad Miskin Road uchaf; darparu cefn dwyreiniol agored i Afon Cynon a Phont Rheilffordd B1; newid Wal Cadw S2 o'r concrit fertigol i'r llethr wair; newid Wal Cadw S1 i gadw wal maen presennol, Tir yn Miskin Road a New Road, Aberpennar.

Cyflwynodd y Rheolwr Materion Rheoli Datblygu y cais i'r Pwyllgor. Ar ôl ystyried y cynnig, **PENDERFYNODD** yr Aelodau gymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Materion Cynllunio.

189 **GWYBODAETH I AELODAU SY'N YMWNEUD Â'R CAMAU GWEITHREDU WEDI'U CYMRYD O DAN BWERAU DIRPRWYEDIG**

**PENDERFYNODD** yr Aelodau dderbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Materion Cynllunio mewn perthynas â'r Penderfyniadau Apeliadau Cynllunio a Gorfodi a ddaeth i law, Cymeradwyaethau Penderfyniadau a Gwrthodiadau Dirprwyedig gyda rhesymau, Trosolwg o Achosion Gorfodi a Phenderfyniadau Gorfodi Dirprwyedig ar gyfer y cyfnod 19 Mawrth, 2018 ac 16 Ebrill, 2018.

Daeth y cyfarfod i ben am 5.55pm

**Y CYNGHORYDD S. REES  
CADEIRYDD.**